

The  
Electoral  
Commission

## Sefyll etholiad yn 2017

Dadansoddiad o'r adborth gan ymgeiswyr a oedd yn sefyll etholiad ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon, cynghorau'r Alban a Senedd y DU

**Tachwedd 2017**

## Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

# Cynnwys

<b>Executive summary</b> .....	
<b>1 Introduction</b> .....	<b>1</b>
<b>2 The candidates</b> .....	<b>2</b>
Profile .....	4
<b>3 Experience of the poll</b> .....	<b>8</b>
Becoming a candidate .....	9
Candidate campaigning – Intimidation .....	122
Complying with the rules .....	13
The count .....	166
<b>4 Electoral integrity</b> .....	<b>18</b>
<b>5 Conclusions</b> .....	<b>22</b>
<b>Appendix A: Methodology</b> .....	<b>23</b>

# Crynodeb gweithredol

Rhan ganolog o waith y Comisiwn Etholiadol yw goruchwyllo etholiadau a gweithio er mwyn hyrwyddo hyder ac uniondeb yn ein prosesau democrataidd. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig i ni ddeall profiadau'r bobl sy'n sefyll etholiad ledled y DU. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn dadansoddi canlyniadau arolygon ar ôl etholiad gydag ymgeiswyr mewn tri etholiad yn 2017 (etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, etholiadau cynghorau'r Alban ac etholiad Cyffredinol Senedd y DU) ac mae'n rhoi trosolwg o'r agweddau tuag at y prosesau etholiadol a'r problemau a wynebwyd ganddynt.

## Canfyddiadau allweddol

Mae ein harolygon yn nodi bod **ymgeiswyr ar y cyfan yn fodlon ar y ffordd y caiff digwyddiadau pleidleisio eu gweinyddu** a gyda'u profiadau o gamau allweddol o'r digwyddiad pleidleisio, yn cynnwys enwebiadau a'r broses gyfrif. Yn y tri digwyddiad pleidleisio, roedd naw o bob deg ymatebydd i'n harolygon yn fodlon ar y ffordd y cafodd eu hetholiad ei weinyddu; i lawr dri phwynt canrannol ers etholiad blaenorol Cynulliad Gogledd Iwerddon, ond i fyny bum pwynt canrannol ers etholiad Cyffredinol diwethaf Senedd y DU ac i fyny bedwar pwynt canrannol ers etholiad diwethaf cynghorau'r Alban. Yn unol â'r digwyddiadau pleidleisio cymharol blaenorol, dywedodd 88% fod y broses yn dryloyw yn eu barn nhw.

Amlygodd yr ymchwil feysydd penodol lle mae angen cymryd camau gweithredu. **Yn ein harolwg o etholiad Cyffredinol Senedd y DU, roedd ychydig dros un rhan o bump o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd yn hawdd codi'r ernes angenrheidiol i sefyll.** Roedd hyn yn uwch ar gyfer ymgeiswyr annibynnol a'r sawl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Mae hyn yn tanlinellu argymhelliad blaenorol y Comisiwn i ddileu rhwystr ariannol yr ernes sy'n ofynnol mewn unrhyw ddigwyddiad pleidleisio.<sup>1</sup>

Yn dilyn etholiad Cyffredinol Senedd y DU, **codwyd sawl pryder ynghylch ymgeiswyr yn cael eu bygylu yn ystod yr ymgyrch.** Canfu ein hymchwil bod y mater hwn wedi'i godi'n ddigymell gan rai ymgeiswyr yn etholiad Senedd yr Alban ac etholiadau cynghorau'r Alban. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi ymateb i'r cais am dystiolaeth gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar Fygylu Ymgeiswyr Seneddol, gan leisio ein barn. Gellir darllen ein hymateb [yma](#). Mae'r Comisiwn hefyd wedi annog Llywodraeth yr Alban i adolygu'r rheolau ar gyhoeddi cyfeiriadau cartref yr ymgeiswyr ac mae'n cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r gofyniad hwn.

**Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod problem gyda thwyll etholiadol, ond erys lleiafrif helaeth y mae hyn yn peri pryder iddynt.**

---

<sup>1</sup>Ceir rhagor o wybodaeth yn [Standing for office in the United Kingdom report of 2015](#).

Mae hyn yn ategu canfyddiadau ein hymchwil â'r cyhoedd yn 2017.<sup>2</sup> Rydym yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif. Gwnaethom nodi ein hargymhelliad ar gyfer cyflwyno gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr ddangos dogfen adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr, gan adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd yng Ngogledd Iwerddon. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i dreialu'r gofyniad i bleidleiswyr ddangos dogfen adnabod mewn nifer o etholiadau lleol ym mis Mai 2018, a bydd y Comisiwn yn cyhoeddi gwerthusiad llawn, annibynnol o'r treialon hyn erbyn haf 2018. Rydym hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth y DU ynghylch sut i leihau'r risg y bydd pobl yn pleidleisio fwy nag unwaith.<sup>3</sup>

Yn olaf, mae'n amlwg o ganlyniadau ein harolwg bod **proffil demograffig ymgeiswyr yn gwyro oddi wrth fenywod, pobl iau a phobl ag anableddau**, er y gwelwyd newidiadau cadarnhaol mewn etholiadau diweddar, yn enwedig o ran rhyw. Mae'n bwysig cael ystod amrywiol a chynrychioliadol o ymgeiswyr er lles ein democratiaeth a byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau afresymol i'r sawl sydd am sefyll etholiad.

---

<sup>2</sup>Y Comisiwn Etholiadol, [Pleidleisio yn 2017](#) (Hydref 2017).

<sup>3</sup>Y Comisiwn Etholiadol [Cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol y DU 2017](#) (Gorffennaf 2017).

# 1 Cyflwyniad

1.1 Yn 2017, safodd ymgeiswyr mewn sawl digwyddiad pleidleisio gwahanol ledled y DU. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli'r canfyddiadau allweddol o'r ymchwil a wnaed ar gyfer tri ohonynt:

- etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2017,
- etholiadau cynghorau'r Alban ym mis Mai 2017,
- etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017.<sup>4</sup>

1.2 Gwnaed gwaith ymchwil er mwyn deall safbwyntiau a phrofiadau ymgeiswyr mewn amrywiaeth eang o feysydd yn cynnwys sefyll a chymryd rhan mewn etholiad, gweinyddu'r etholiadau, argaeledd gwybodaeth am fod yn ymgeisydd ac uniondeb etholiadol. Cyhoeddwyd arolwg, yn cynnwys cwestiynau caeedig a blychau testun rhydd, yn dilyn pob un o'r digwyddiadau pleidleisio hyn a chynhaliwyd 11 o gyfweiliadau manwl dilynol. Ceir rhagor o wybodaeth am y fethodoleg yn Atodiad A.

## Y Comisiwn Etholiadol

1.1 Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio er mwyn gwella hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb drwy alluogi'r gwaith o gynnal etholiadau a refferenda rhydd a theg, gan ganolbwyntio ar anghenion yr etholwyr a mynd i'r afael ag amgylchedd sy'n newid o hyd er mwyn sicrhau bod pob pleidlais yn ddiogel ac yn hygyrch. Fel rhan o'r rôl hon, mae'r Comisiwn yn asesu pa mor dda y caiff etholiadau'r DU eu cynnal ac rydym wedi bod yn cyhoeddi cyfres o adroddiadau ar ddiwyddiadau etholiadol 2017.

- [Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, Mawrth 2017: papur briffio](#)
- [Cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol y DU 2017](#)
- [Gweinyddu etholiadau cynghorau'r Alban a gynhaliwyd ar 4 Mai 2017](#)
- [Etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru](#)
- [Pleidleisio yn 2017](#)

---

<sup>4</sup> Ni chynhaliwyd yr arolwg yn etholiadau lleol Cymru a Lloegr. Mae'r Comisiwn yn gwneud gwaith ymchwil gydag ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU ac mewn etholiadau i gynulliadau/seneddau rhanbarthol a datganoledig. Cafodd y Comisiwn gyllid gan lywodraeth yr Alban er mwyn cynnal arolwg yn etholiadau cynghorau'r Alban.

## 2 Yr ymgeiswyr

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd tua 70% o'r holl ymgeiswyr yn ddynion ond cynyddodd y gyfran o ymgeiswyr a oedd yn fenywod 8 pwynt canrannol yn etholiadau cynghorau'r Alban a 3 phwynt canrannol yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU.
- Yr oedran mwyaf nodweddiadol i sefyll am swydd yw 55-64. O gymharu â digwyddiadau pleidleisio blaenorol, gwelwyd cynnydd yng nghyfran yr ymgeiswyr 18-24 oed.
- Nododd y mwyafrif o'r ymgeiswyr a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn 'Wyn', rhwng 86% ar gyfer ymgeiswyr etholiad Cyffredinol Senedd y DU a 100% ar gyfer ymgeiswyr Cynulliad Gogledd Iwerddon.
- Mae data yn awgrymu bod pobl ag anabledd neu broblem iechyd yn cael eu tangynrychioli o blith y rhai sy'n sefyll am swydd. Hefyd, o'r ymatebwyr hynny ag anabledd neu broblem iechyd, cafodd 5% eu hethol, o gymharu â 12% o'r rhai heb anabledd neu broblem iechyd.

2.1 Safodd 6,104 o ymgeiswyr i gyd yn y tri digwyddiad pleidleisio a gwmpaswyd gan ein harolwg. O gymharu â'r digwyddiadau pleidleisio cyfatebol, gostyngodd nifer yr ymgeiswyr a safodd 17 pwynt canrannol yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon – y ddau etholiad brys – ond cynyddodd dri phwynt canrannol yn etholiadau cynghorau'r Alban.

**Tabl 2.1: Nifer yr ymgeiswyr a safodd mewn digwyddiad pleidleisio a'r gyfradd ymateb.<sup>5</sup>**

Etholiad	Nifer yr ymgeiswyr a safodd	Nifer yr ymatebion a gafwyd	Y gyfradd ymateb
Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon	228	34	15%
Etholiadau cyngor yn yr Alban	2,572	743	29%
Etholiad Cyffredinol Senedd y DU	3,308	780	24%

2.2 Cawsom 1,557 o ymatebion i'r arolwg, gyda chyfraddau ymateb yn amrywio o 15% i 29% (Tabl 2.1). Oherwydd y swm is o ymatebion a gafwyd gan ymgeiswyr Cynulliad Gogledd Iwerddon (34 o holiaduron gyda chyfradd ymateb o 15%), dim ond dadansoddiad cyfyngedig o ran nodweddion demograffig ac etholiadol.

2.3 Mae'r bobl a ymatebodd i'r arolwg hwn wedi dewis gwneud hynny ac nid oes llawer o ddata ar gael ar broffil demograffig ymgeiswyr. Felly, nid yw'n bosibl bod yn bendant ynghylch pa mor gynrychioliadol yw canlyniadau'r arolwg.<sup>6</sup>

2.4 Fodd bynnag, lle y gallwn gymharu canlyniadau'r arolwg â data sydd ar gael ar ymgeiswyr, gwelwn fod ymatebwyr yr arolwg yn cynrychioli'r ymgeiswyr a safodd i raddau – yn enwedig ar gyfer etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac etholiadau cynghorau'r Alban. Er enghraifft:

- Mae'r rhaniad rhwng y rhywiau o ran ymatebwyr ein harolwg ar gyfer y ddau ddigwyddiad pleidleisio (tua 70/30 ar gyfer dynion a menywod) yr un fath â phroffil rhyw ymgeiswyr;<sup>7</sup>
- Mae cyfran yr ymgeiswyr pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol hefyd yn debyg iawn rhwng canlyniadau'r arolwg a realiti;
- Mae'r cydbwysedd rhwng y sawl a gafodd eu hethol a'r sawl na chawsant eu hethol yn debyg;
- Gwelwn rai gwahaniaethau o ran ymlyniad i blaid wleidyddol, er enghraifft cafwyd ychydig yn llai o ymatebion i'r arolwg gan ymgeiswyr Ceidwadol a mwy gan y Democratiaid Rhyddfrydol o gymharu â'r 'gwir' broffil. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wahaniaethau mawr.

<sup>5</sup> Nifer yr ymgeiswyr mewn etholiad cyfatebol blaenorol oedd: Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2016 – 276, cynghorau'r Alban yn 2012 – 2,496; etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015 – 3,971. Y gyfradd ymateb mewn arolygon blaenorol oedd: Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2016 – 25%, cynghorau'r Alban yn 2012 – 40%; etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015 – 18%.

<sup>6</sup> Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr sy'n sefyll etholiadau ddarparu gwybodaeth ddemograffig.

<sup>7</sup> Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Women in Parliament and Government* (Gorffennaf 2017).



2.5 Felly, dylid trin y data a gyflwynir isod yn ddynodol yn hytrach nag yn hollol gynrychioliadol. Er hyn, mae'n rhoi cipolwg da ar broffil ymgeiswyr yn yr etholiadau hyn.

## Proffil

### Nodweddion gwleidyddol ac etholiadol

2.6 Mae ein harolygon a'r ffigurau swyddogol yn dangos bod y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn yr etholiadau hyn wedi sefyll dros bleidiau gwleidyddol cofrestredig, gyda nifer yr ymgeiswyr annibynnol yn amrywio o 6% yn etholiadau Cyffredinol Senedd y DU i 19% yn etholiadau cynghorau'r Alban (tabl 2.2). O gymharu â'r digwyddiad pleidleisio blaenorol, cynyddodd nifer yr ymgeiswyr annibynnol ddau bwynt canrannol yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU a gostyngodd un pwynt canrannol yn etholiadau cynghorau'r Alban ac etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon.

2.7 Mae'r canlyniadau o'n harolwg yn dangos bod cyfran yr ymgeiswyr heb brofiad blaenorol o sefyll etholiad yn amrywio o 39% yn etholiadau cynghorau'r Alban (i lawr bum pwynt canrannol ers 2012) i 19% yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU (i lawr 14 pwynt canrannol ers etholiad Cyffredinol diwethaf Senedd y DU).

**Tabl 2.2: Nodweddion gwleidyddol ac etholiadol.**

Cwestiwn	Ateb	Etholiad		
		Cynulliad Gogledd Iwerddon	Cynghorau'r Alban	Senedd y DU
Plaid/Annibynnol ( <i>ffigurau swyddogol</i> )	<b>Plaid</b>	91%	81%	94%
	Annibynnol	9%	19%	6%
Profiad	Profiadol	70%	61%	81%
	Tro cyntaf	30%	39%	19%
Wedi'i ethol/Heb ei ethol <sup>8</sup>	Wedi'i ethol	50%	54%	11%
	Heb ei ethol	50%	46%	89%

<sup>8</sup> Nifer y seddi: Cynulliad Gogledd Iwerddon - 90; cynghorau'r Alban - 1,227; Senedd y DU - 650.

## Nodweddion demograffig

2.8 Yn y tri etholiad, dynion oedd mwyafrif yr ymgeiswyr (70% neu uwch). Dengys data sydd ar gael ar ymgeiswyr yn etholiadau cynghorau'r Alban ac etholiad Cyffredinol Senedd y DU y gwelwyd cynnydd yng nghyfran yr ymgeiswyr benywaidd o gymharu â'r digwyddiad pleidleisio cymharol blaenorol – i fyny 3% pwynt yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac i fyny 8% yn etholiadau cynghorau'r Alban.<sup>9</sup>

2.9 Gostyngodd nifer absoliwt yr ymgeiswyr benywaidd yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU o gymharu â 2015, ond gostyngodd nifer gyffredinol yr ymgeiswyr yn sylweddol hefyd (i'w lefel isaf ers 1992). Felly, cynyddodd cyfran yr ymgeiswyr benywaidd.

2.10 Mae ein harolwg yn awgrymu mai'r oedran mwyaf nodweddiadol i sefyll am swydd yw 55-64 o hyd. O gymharu arolygon 2017 â'r rhai a gynhaliwyd yn y digwyddiadau pleidleisio cyfatebol blaenorol, gellir gweld y cafwyd cynnydd yn y grŵp oedran 18-24, sy'n fach yn draddodiadol. Yn wir, gwnaeth fwy na dyblu rhwng 2016 a 2017 yng Ngogledd Iwerddon, o 7% i 15%.

2.11 Nododd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr i bob arolwg eu bod yn 'Wyn'. 86% yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU, 94% yn etholiadau cynghorau'r Alban a phob ymatebydd yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon. Mae nifer yr ymatebwyr i arolwg etholiad Cyffredinol Senedd y DU a nododd eu bod yn 'Wyn' wedi gostwng pedwar pwynt canrannol o gymharu â'r digwyddiad pleidleisio blaenorol.

**Tabl 2.3: Nodweddion demograffig.**

Cwestiwn	Ateb	Etholiad		
		Cynulliad Gogledd Iwerddon	Cynghorau'r Alban	Senedd y DU
Rhyw	Gwryw	74%	70%	71%
	Benyw	26%	30%	29%
Oedran	18-24	15%	3%	4%
	25-34	8%	4%	11%
	35-44	23%	9%	17%
	45-54	19%	22%	23%
	55-64	23%	33%	27%

<sup>9</sup> Nid oes gwybodaeth am ryw ymgeiswyr ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon.

	65+	12%	29%	17%
Ethnigrwydd	Gwyn	100%	94%	86%
	Indiaidd	-	-	2%
	Pacistanaid	-	-	1%
	Bangladeshaid	-	-	1%
	Du Affricanaidd	-	-	1%
	Arall	-	6%	8%

## Cydraddoldeb: anabledd a chyfrifoldebau gofalu

2.12 Mae'r Comisiwn yn gweithio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro pobl ag anabledd rhag cymryd rhan yn y broses etholiadol. Yn ein harolwg, gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw gyflwr sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd neu ar y gwaith a wnânt, fel salwch hirdymor, problemau iechyd neu anabledd.

2.13 Dywedodd rhwng 8% a 11% o'r ymatebwyr yn 2017 fod ganddynt broblem iechyd neu anabledd sy'n awgrymu eu bod yn cael eu tangynrychioli o blith y rhai sy'n sefyll am swydd. Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos na wnaeth tua 82% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr nodi bod ganddynt broblem iechyd nac anabledd ymysg y 89-92% o'r ymatebwyr i'r arolwg hwn.<sup>10</sup> Hefyd, dim ond 5% o'n hymatebwyr ag anabledd neu broblem iechyd a ddywedodd eu bod wedi cael eu hethol yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU, o gymharu â 12% o'r rhai nad oedd ganddynt anabledd.

**Tabl 2.4: Problemau iechyd/anabledd**

Cwestiwn	Ateb	Etholiad		
		Cynulliad Gogledd Iwerddon	Cynghorau'r Alban	Senedd y DU
Problem iechyd/Anabledd	Oes	8%	11%	10%
	Nac oes	92%	89%	90%

2.14 Defnyddiwyd Cronfa Swydd Etholedig yr Alban, a sefydlwyd gan lywodraeth yr Alban, am y tro cyntaf yn etholiadau cynghorau'r Alban yn 2017 gyda'r nod o roi cymorth i bobl anabl sy'n sefyll fel ymgeiswyr a cheisio cael

<sup>10</sup>Mae'r cwestiwn yng [Nghyfrifiad 2011](#) wedi'i eirio ychydig yn wahanol: 'A oes problem iechyd neu anabledd sydd wedi para o leiaf 12 mis neu y disgwylir iddo bara o leiaf 12 mis yn cyfyngu ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd?'.

eu dewis yn fewnol gan y blaid. Roedd yr adborth gan ymgeiswyr yn gadarnhaol ar y cyfan, ond dim ond 29% o'r ymatebwyr ag anabledd neu broblem iechyd a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r gronfa. Bydd y Comisiwn yn parhau i gynorthwyo wrth godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa yn etholiadau cynghorau a Senedd yr Alban yn y dyfodol, ac unrhyw etholiadau eraill a gyflwynir.<sup>11</sup>

2.15 Hefyd, gwnaethom holi'r ymgeiswyr a oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu am bobl yn eu cartref - fel plant dan 18 oed neu unrhyw un sydd ag anabledd neu salwch hirdymor. Yn y tri arolwg, dywedodd 18% i 23% eu bod yn gofalu am rywun arall.<sup>12</sup> Mae hyn hefyd yn awgrymu rhywfaint o dangynrychioli gan fod data'r cyfrifiad yn awgrymu bod gan tua 11% o bobl yng Nghymru a Lloegr rywffaint o gyfrifoldebau gofalu a bod hynny'n eithrio pobl sydd ond â phlant dibynnol a fyddai'n gwneud y ffigur cyffredinol yn llawer uwch.

## Ymgeiswyr ac asiantau

2.16 O fewn pob math o ddigwyddiad pleidleisio, mae'n ymddangos bod nifer gyson o ymatebwyr yn gweithredu fel ymgeisydd ac asiant. Yn 2017, roedd canran yr ymatebwyr a oedd yn gweithredu fel ymgeisydd ac asiant ar ei isaf yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU (15%) ac ar ei uchaf yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon (22%), gyda'r Alban yn 19%. Mae'r ffigurau hyn yn debyg ym mhob achos i'r ffigurau a gafwyd o'r digwyddiad pleidleisio diwethaf.

2.17 Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi'r canlyniadau o'r arolwg o asiantiaid yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU a gynhaliwyd gan Brifysgol Brunel.<sup>13</sup> Rydym wedi cynnwys canfyddiadau perthnasol o'r astudiaeth honno yn yr adroddiad hwn fel sy'n briodol.

---

<sup>11</sup> Ceir rhagor o fanylion am y Gronfa yn yr adroddiad ar [Scottish council elections 2017](#).

<sup>12</sup> Mae'r cwestiynau yn y maes hwn yn sensitif yn gyffredinol ac ni roddodd pob ymatebydd ateb. O gymharu â'r prif holiadur, gostyngodd uchafswm nifer yr ymatebwyr a atebodd unrhyw gwestiwn yn yr adran hon 6% ar gyfer etholiad Senedd y DU, 2% ar gyfer etholiadau cynghorau'r Alban a 21% ar gyfer etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon. O'r rhai a oedd yn barod i rannu'r wybodaeth hon, gwelsom fod 70% neu fwy o'r ymatebwyr i'n harolygon yn 2017 yn ddynion.

<sup>13</sup> Y Comisiwn Etholiadol/Prifysgol Brunel, *Attitudes of Electoral Agents on the Administration of the 2017 General Election* (Tachwedd 2017).

# 3 Profiad o'r digwyddiad pleidleisio


## Canfyddiadau allweddol

- Roedd yr ymgeiswyr yn fodlon ar y ffordd y cafodd yr etholiad ei weinyddu yn y tri digwyddiad pleidleisio, o 89% yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU i 99% ar gyfer etholiadau cynghorau'r Alban.
- Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o'r farn bod y broses enwebu yn rhwydd ac yn syml a bod y broses gyfrif yn dryloyw.
- Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y broses o gasglu'r nifer ofynnol o lofnodion er mwyn sefyll etholiad yn hawdd, ond ystyriwyd bod y gofyniad i godi'r ernes yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn achosi problemau ac yn rhwystr canfyddedig.
- Nododd nifer o'r ymgeiswyr eu bod wedi cael eu bygwth a'u byglyu wrth sefyll etholiad eleni. Nid yw'r Comisiwn o'r farn y dylai fod yn angenrheidiol bellach i gyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn deunydd etholiadol.
- Roedd ymgeiswyr etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn llawer llai tebygol o gytuno eu bod o'r farn bod y rheolau ar wariant a rhoddion yn glir. Mae hyn yn ddealladwy gan fod y rheolau ariannol ar gyfer etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn fwy cymhleth nag yn y ddau ddigwyddiad pleidleisio arall.
- Ni wnaeth un rhan o dair o'r ymatebwyr ddefnyddio cyngor ac arweiniad y Comisiwn yn uniongyrchol. Ymysg y rhai a'i defnyddiodd, roedd tri chwarter ohonynt o'r farn ei fod yn ddefnyddiol.

3.1 Erys boddhad cyffredinol â'r broses o weinyddu'r etholiadau yn uchel ar gyfer y tri digwyddiad pleidleisio, gyda 89% neu fwy o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon. Mae hyn i lawr dri phwynt canrannol ers etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, ond i fyny bum pwynt canrannol ers etholiad Cyffredinol diwethaf Senedd y DU ac i fyny bedwar pwynt canrannol ers etholiadau diwethaf cynghorau'r Alban.

3.2 Mae'r canlyniadau'n dangos nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y boddhad a nodwyd rhwng ymgeiswyr gyda phrofiad neu heb brofiad neu rhwng ymatebwyr a gafodd eu hethol ac ymatebwyr na chawsant eu hethol. Roedd yr ymatebwyr ag anabledd neu broblem iechyd yn llai tebygol o fod yn fodlon ar y broses o weinyddu'r etholiad na'r rhai heb anabledd neu broblem iechyd (83% o gymharu â 91% ar gyfer yr arolwg o etholiad Cyffredinol Senedd y DU, 88% o gymharu â 95% ar gyfer etholiadau cynghorau'r Alban).

### Siart 3.1: Boddhad â'r broses o weinyddu'r etholiad.



C: 'Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi â'r broses o weinyddu'r etholiad yn eich ardal/etholaeth?' Mae'r ffigurau yn dangos y canrannau 'Bodlon iawn' + 'Eithaf bodlon' ac 'Eithaf anfodlon' + 'Anfodlon iawn'.

## Dod yn ymgeisydd

### Y broses enwebu


3.3 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn gadarnhaol, ar gyfer y tri digwyddiad pleidleisio, ynghylch y broses o ddod yn ymgeisydd, yn cynnwys argaeledd gwybodaeth am sut i ddod yn ymgeisydd, y rheolau a'r broses enwebu (Siart 3.1). Mae'r rheolau yn unol ag arolygon o ddigwyddiadau pleidleisio blaenorol.

3.4 Roedd ymgeiswyr pleidiau yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn fwy tebygol nag ymgeiswyr annibynnol o gytuno ei bod yn hawdd cael gwybod sut i fod yn ymgeisydd (90% o gymharu â 78%) a bod y broses yn syml (90% a 86% yn y drefn honno). Roedd y gwrthwyneb yn wir yn etholiadau cynghorau'r Alban lle roedd ymgeiswyr annibynnol yn fwy tebygol nag ymgeiswyr pleidiau o gytuno â'r datganiadau hynny (92% o gymharu â 87% a 91% o gymharu â 89% yn y drefn honno). Nid oedd unrhyw wahaniaeth yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon.

3.5 Roedd yr ymatebwyr ag anabledd neu broblem iechyd yn llai tebygol o ddweud ei bod yn hawdd cael gwybod beth roedd angen iddynt ei wneud er mwyn dod yn ymgeisydd: 78% o gymharu â 91% yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU, 79% o gymharu â 89% yn y drefn honno yn etholiadau cynghorau'r Alban.

3.6 Ar gyfer pob mesur yn Siart 3.2, roedd y canlyniadau o arolwg Cynulliad Gogledd Iwerddon yr un fath ar gyfer yr ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd.

Fodd bynnag, yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac etholiadau cynghorau'r Alban, roedd y menywod yn llai tebygol o gytuno na'r dynion. Uchafswm o bedwar pwynt canrannol oedd y rhan fwyaf o wahaniaethau ond roedd menywod yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn llawer llai tebygol o ddweud ei bod yn hawdd cael gwybod beth roedd angen iddynt ei wneud er mwyn dod yn ymgeisydd (83% o gymharu â 92%).




## Ernesau a llofnodwyr

3.7 Er mwyn sefyll etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, mae'n ofynnol i unigolion gasglu deg llofnod a chod ernes (£500 ar gyfer etholiad Cyffredinol Senedd y DU, £150 ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon).<sup>14</sup> Nid yw'r gofynion hyn yn berthnasol i etholiadau cynghorau'r Alban.

3.8 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i'n harolygon o'r farn bod y broses o gasglu llofnodion yn hawdd: 92% yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU a 97% yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon.

<sup>14</sup> Ceir rhagor o wybodaeth ar y gofynion ar gyfer dod yn ymgeisydd yn ein dogfen [Consultation on standing for election in the UK](#).

3.9 Mae'r Comisiwn wedi argymhell y dylid cadw'r gofyniad am lofnodwyr, er mwyn cynnal ymddiriedaeth bod yr etholiadau'n cael eu hymladd gan ymgeiswyr a oedd o ddifrif ac er mwyn osgoi dosbarthu papurau pleidleisio anhylaw i bleidleiswyr ac anodd eu gweinyddu. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi argymhell y dylid adolygu nifer y tanysgrifwyr ar gyfer pob etholiad er mwyn sicrhau ei bod yn gymesur â'r swydd y mae'r ymgeisydd yn sefyll amdani.



3.10 Roedd barn fwy negyddol ynghylch y gofyniad am ernes, yn enwedig yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU lle roedd mwy nag un rhan o bump o'r ymatebwyr (22%) yn anghytuno ei bod yn hawdd codi'r ernes ofynnol (i fyny bedwar pwynt canrannol ers 2015). Yn nodedig, roedd un rhan o dair o'r ymgeiswyr annibynnol anghytuno (34%) o gymharu ag 21% o'r ymgeiswyr pleidiau. Roedd un o bob pedwar ymgeisydd ag anabledd neu broblem iechyd hefyd yn anghytuno ei bod yn hawdd.

3.11 Dywedodd rhai ymatebwyr, mewn blychau sylwadau testun rhydd ac mewn cyfweiliadau dilynol, bod yr ernes yn rhwystro pleidiau bach ac ymgeiswyr annibynnol. Mewn rhai achosion, roeddent o'r farn ei bod yn fater o degwch oherwydd y gall y gofyniad am ernes olygu na all rhai ymgeiswyr, heb yr adnoddau, sefyll etholiad.

3.12 Yn y gorffennol, mae'r Comisiwn

**'[Mae'r ernes] yn rhwystro democratiaeth'**

Ymgeisydd am y tro cyntaf yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU, dyfyniad o



Etholiadol wedi argymhell y dylid dileu'r gofyniad i dalu ernes ym mhob etholiad, gan nad ydym yn ystyried y dylai fod rhwystr ariannol rhag sefyll etholiad. Mae'r dystiolaeth hon yn atgyfnerthu'r argymhelliad hwnnw.<sup>15</sup>

## Ymgyrchu dros ymgeiswyr – Bygylu

3.13 Ar ôl etholiad cyffredinol y DU, mae sawl ymgeisydd ac ASau wedi lleisio pryderon ynghylch ymgeiswyr yn cael eu bygylu yn ystod yr ymgyrch.

3.14 Canfu ein harolwg ar etholiad Cyffredinol Senedd y DU i'r mater hwn gael ei godi'n ddigymell gan 4% o'r ymatebwyr.<sup>16</sup> Er bod rhywfaint o hyn yn cyfeirio at ymddygiad rhifwyr neu ymgyrchwyr eraill mewn gorsafoedd pleidleisio, honiadau ffug neu niweidiol mewn dogfennau gan gyd-ymgyrchwyr, neu fandaleiddio deunyddiau ymgyrchu, roedd sylwadau eraill yn ymwneud ag effeithiau mwy uniongyrchol.

3.15 Dywedodd un ymatebydd yr "ymosodwyd" ar un ymgyrchydd; honnodd ymgeisydd arall bod unigolyn wedi bod yn "anghwrtais ac ymosodol" tuag ato yn y cyfrif. Er na wynebodd yr ymgeiswyr drais corfforol, gwnaethant nodi bod "cannoedd o bosteri wedi'u rhwygo" a bod eiddo a oedd yn arddangos posterï eu plaid wedi cael eu fandaleiddio. Roeddent o'r farn bod hyn wedi atal trafodaeth, ac y bydd pryderon diogelwch yn atal cefnogwyr rhag arddangos posterï yn y dyfodol.

3.16 Roedd rhai ymgeiswyr wedi caniatáu i'w cyfeiriad ymddangos ar y papur pleidleisio gan eu bod o'r farn y byddai ymgeiswyr eraill yn defnyddio'r ffaith honno yn eu herbyn fel arall, ond byddai wedi bod yn well ganddynt roi enw'r dref/pentref yn lle hynny.

3.17 Er na wnaeth ein gwaith ymchwil ar etholiadau cynghorau'r Alban fynd ati'n benodol i roi sylw i fygylu, codwyd nifer o bryderon mewn cyfweiliadau ac wrth drafod p'un a oedd ymatebwyr yn fodlon i'w cyfeiriad ymddangos ar bapur pleidleisio.

3.18 Dywedodd un ymatebydd ei fod wedi bod yn dyst i fygylu pan gafodd ymgyrchydd ei fygwth pan oedd allan yn canfasio. Mewn perthynas â chyfeiriadau, bu'n rhaid i ymatebydd arall gynnwys yr heddlu yn y gorffennol mewn perthynas â'r ffaith ei fod wedi cael ei dargedu am fod ei gyfeiriad wedi'i gyhoeddi, ac roedd un arall yn poeni am ei ddiogelwch pan ymwelodd etholwr â'i gartref yn ystod y nos.

***'[Mae'r ffaith bod y cyfeiriad wedi'i gyhoeddi] wedi creu problemau diogelwch i mi. [Bu'n rhaid i mi] symud allan o'm cartref yn ystod yr ymgyrch oherwydd y bygythiadau a gefais.'***

Ymgeisydd profiadol yn etholiad

<sup>15</sup> Ceir rhagor o wybodaeth yn [Standing for office in the United Kingdom report of 2015](#)

<sup>16</sup> Codwyd mewn blychau testun rhydd o'r holiadur.

Roedd archwaeth ymysg ymatebwyr i gael yr un hawliau ag ymgeiswyr yn San Steffan o ran dewis hepgor eu cyfeiriad.

3.19 Nid yw'r cwestiwn hwn wedi cael ei ofyn yng Ngogledd Iwerddon, ond gan fod cynifer yn manteisio ar yr opsiwn i beidio â rhyddhau eu cyfeiriad i'r cyhoedd, gall hyn ei gwneud yn anoddach i arolygu ymgeiswyr.

3.20 Mewn adroddiadau ar etholiadau yn yr Alban, rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth yr Alban adolygu'r rheolau ar gyhoeddi cyfeiriadau cartref ymgeiswyr er mwyn cael cydbwysedd rhwng diogelwch a thryloywder.<sup>17</sup> Yn yr un modd, awgrymodd ein hadroddiad gan Lywodraeth Cymru na ddylai fod yn angenrheidiol cyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn llenyddiaeth etholiadol mwyach.<sup>18</sup> Mae'r Comisiwn yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ystyried y gofyniad hwn, a byddwn yn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw maes o law.

3.21 Ym mis Medi 2017, ymatebodd y Comisiwn Etholiadol i gais y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus am dystiolaeth ar fygyly ymgeiswyr seneddol gan leisio ein barn ar nifer o gwestiynau penodol a godwyd gan y Pwyllgor. Gellir darllen ein ymateb yma .

## Cydymffurfio â'r rheolau

### Rhoddion a gwariant

3.22 Caiff y broses o gyllido pleidiau ac ymgeiswyr mewn etholiadau, ynghyd â'u gwariant, ei reoleiddio, gyda rheolau gwahanol yn cymhwyso mewn digwyddiadau pleidleisio gwahanol. Roedd yr arolygon yn holi ymatebwyr p'un a oedd y rheolau ar wariant a rhoddion yn glir.

3.23 Mae'r rheolau ar gyfer rheoleiddio ariannol yn gymhleth yn ôl eu natur ac o'r tri digwyddiad pleidleisio a ystyriwyd yma, y rheolau ar gyfer etholiad Cyffredinol Senedd y DU yw'r rhai mwyaf cymhleth. Mae hyn yn deillio o ganfyddiadau ein harolwg, fel y mae Siart 3.4 yn ei ddangos, a'r ymatebwyr a safodd yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon oedd fwyaf tebygol o gytuno bod y rheolau ar wariant a rhoddion yn glir (97%) a'r ymgeiswyr yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU oedd leiaf tebygol o gytuno (68%).

3.24 Yn yr etholiad cyffredinol, nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng ymgeiswyr pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol (68% yn ymgeiswyr pleidiau a 69% yn ymgeiswyr annibynnol). Fodd bynnag, roedd ymgeiswyr annibynnol a ymatebodd i'r arolwg ar etholiadau cynghorau'r Alban yn fwy tebygol o gytuno bod y rheolau ar wariant yn glir o gymharu ag ymgeiswyr pleidiau (88% o gymharu â 79%). Gall hyn fod yn rhannol oherwydd y gwahaniaeth yng


---

<sup>17</sup> Ceir rhagor o fanylion yn ein hadroddiad [Gweinyddu etholiadau cynghorau'r Alban a gynhaliwyd ar 4 Mai 2017](#) a [The 2016 Scottish Parliament election report](#).

<sup>18</sup> Ceir rhagor o fanylion yn yr adroddiad [Etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru](#).

ngeiriad arolwg yr Alban lle nad oedd y cwestiwn yn cyfeirio at roddion, dim ond at wariant.<sup>19</sup>

3.25 Hefyd, holodd ein harolygon yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac etholiadau cynghorau'r Alban yr ymatebwyr p'un a oeddent o'r farn bod y rheolau ar dreuliau personol yn glir, yn cynnwys beth yw traul bersonol.<sup>20</sup> Cytunodd tri chwarter (75%) yr ymatebwyr i arolwg cynghorau'r Alban fod y rheolau'n glir o gymharu â 63% o'r ymatebwyr yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU.



3.26 Wrth ddadansoddi'r cytundeb ar eglurder y rheolau ar gyfer y ddau etholiad hyn, roedd yr ymgeiswyr annibynnol yn llai tebygol nag ymgeiswyr pleidiau i gytuno bod y rheolau ar dreuliau personol yn glir (45% o gymharu â 64%). Mae hyn yn debygol o adlewyrchu, yn rhannol y cymorth a gaiff ymgeiswyr pleidiau gan eu plaid, yn ogystal â natur yr etholiad brys a all fod wedi dwysáu'r her i ymgeiswyr annibynnol.

3.27 Yn ein harolwg ar etholiadau cynghorau'r Alban, gwnaethom ofyn hefyd a oedd y rheolau ar dreuliau yn ymwneud ag anabledd ymgeisydd yn glir (yn cynnwys sut i gofnodi traul yn gysylltiedig ag anabledd). O'r ymgeiswyr a'r asiantiaid hynny a ddywedodd bod ganddynt anabledd neu broblem iechyd hirdymor, roedd 45% yn cytuno bod y rheolau'n glir, er i 29% ddweud nad oeddent yn gwybod digon i gytuno nac anghytuno.

3.28 Yn aml, bydd ymgeiswyr yn gallu manteisio ar arweiniad, cyngor a chymorth gan asiantiaid profiadol ac efallai nad yw'r ffaith bod 63% o'r

<sup>19</sup> Nid yw'n ofynnol i'r ymgeiswyr yn yr etholiadau hyn gofnodi rhoddion ar eu ffurflen gwariant.


<sup>20</sup> Nid yw'r rheolau hyn yn gymwys i Ogledd Iwerddon.

ymgeiswyr yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn cytuno bod y rheolau ar dreuliau personol yn glir yn ystyried yr ymgeiswyr niferus nad oeddent o'r farn bod angen iddynt wybod y rheolau manwl am mai rôl eu hasiant oedd hynny. Yn arolwg Prifysgol Brunel o asiantiaid yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU, roedd 81% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rheolau ar wariant a rhoddion yn glir, i fyny bedwar pwynt canrannol o gymharu â 2015. Yn etholiadau cynghorau'r Alban, cytunodd 79% o'r asiantiaid a ymatebodd fod y rheolau ar wariant yn glir.

## Y Comisiwn fel ffynhonnell gwybodaeth

3.29 Mae'r Comisiwn yn rhoi cyngor a chanllawiau i ymgeiswyr sy'n sefyll etholiadau. Gall unigolion hefyd ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill fel Swyddogion Canlyniadau, eu hasiant a'u plaid, yn ogystal â dibynnu ar brofiad blaenorol.

3.30 Pan ofynnwyd a oedd y Comisiwn yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor a chanllawiau yn ystod yr ymgyrch, nododd llawer o'r ymatebwyr 'nad oeddent yn defnyddio' canllawiau'r Comisiwn: 31% yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, 36% yn etholiadau cynghorau'r Alban a 9% yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon. Fel y nodwyd uchod, nid yw hyn yn syndod gan fod ffynonellau gwybodaeth eraill ar gyfer ymgeiswyr, a lle maent yn defnyddio asiant, efallai mai'r asiant a gyrchodd ganllawiau'r Comisiwn yn uniongyrchol.



3.31 Os edrychwn ar y sawl a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r canllawiau, gwelwn fod tua dwy ran o dair yn cytuno eu bod yn ddefnyddiol: 77% yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU, 79% yn etholiadau cynghorau'r Alban a 73% yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon. Roedd ymatebwyr nad oeddent wedi sefyll etholiad o'r blaen yr un mor debygol o ddweud bod y Comisiwn yn ddefnyddiol ag ymgeiswyr profiadol. Roedd ymgeiswyr ag

anabledd neu broblem iechyd yn llai tebygol o ddweud eu bod o'r farn ei fod yn ddefnyddiol o gymharu ag ymgeiswyr heb anabledd neu broblem iechyd: 71% o gymharu â 80% yn y drefn honno ar gyfer etholiad Cyffredinol Senedd y DU, 75% o gymharu ag 81% ar gyfer etholiadau cynghorau'r Alban.

3.32 Dangosodd arolwg Prifysgol Brunel bod 68% o asiantiaid etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn cytuno bod y comisiwn yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor a chanllawiau. Mae data gan ymatebwyr a oedd ond yn gweithredu fel asiantiaid yn ein harolwg ar etholiadau cynghorau'r Alban yn dangos bod 78% yn cytuno ymysg y rhai a'i defnyddiodd.

3.33 Dylid hefyd ystyried y broses o raddio'r Comisiwn fel ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor a chanllawiau yng nghyd-destun p'un a yw'r ymgeiswyr wedi ymateb ynghylch y canllawiau penodol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r ymgeiswyr yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau o wybodaeth ac mae'n bosibl, lle mae pleidiau, asiantiaid neu Swyddogion Canlyniadau yn rhannu canllawiau'r Comisiwn yn lleol, neu'n defnyddio canllawiau'r Comisiwn i ddrafftio canllawiau eu plaid eu hunain ar gyfer ymgeiswyr, efallai na fydd bob amser yn glir i'r ymatebwyr mai'r Comisiwn yw'r ffynhonnell wreiddiol.

3.34 Er hyn, mae'r Comisiwn yn ystyried yr adborth ar gyngor a chanllawiau a gafwyd o'r ymchwil hon. Rydym yn bwriadu moderneiddio ein canllawiau ac un o brif amcanion hyn fydd gwella eu rhwyddineb. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn siarad ymhellach ag ymgeiswyr, yn ogystal ag asiantiaid a phleidiau gwleidyddol, er mwyn llywio ein dull gweithredu.

3.35 Rydym eisoes wedi argymhell y dylai'r Comisiwn gael rôl statudol yn darparu canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiadau cynghorau'r Alban. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu canllawiau ar gais gan Lywodraeth yr Alban ond felly mae gan ein canllawiau ar wariant ymgeiswyr yn yr Alban swyddogaeth wahanol i'r canllawiau yng Nghymru a Lloegr, am nad oes gennym rôl statudol yn cynghori ymgeiswyr ac asiantiaid. Mae hyn yn golygu na all y canllawiau ar gyfer yr Alban roi'r sicrwydd arferol pan fydd ymgeiswyr ac asiantiaid yn cydymffurfio â nhw, y byddant fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.


## Y broses gyfrif

3.36 Roedd yr ymgeiswyr yn gadarnhaol ynghylch eu profiadau o brosesau cyfrif yn y digwyddiadau pleidleisio hyn yn 2017. Fel y dengys Siart 3.6, roedd y farn ynghylch tryloywder y broses hefyd yn eithaf cyson rhwng y digwyddiadau pleidleisio.

3.37 Nododd y sylwadau ychwanegol a roddwyd gan yr ymatebwyr rai meysydd y gellid gwella arnynt, yn cynnwys problemau mewn perthynas â lleoliadau cyfrif penodol (cynllun, cyfleusterau, a'r system sain). Ymddengys fod y rhain yn egluro'r canlyniadau is, er eu bod yn gadarnhaol o hyd, ar b'un a wnaeth staff etholiad egluro beth oedd yn digwydd ar bob cam o'r cyfrif. Fodd bynnag, ar y cyfan, ymddengys mai mân broblemau oedd y rhain.

3.38 Roedd yr ymgeiswyr yn fwy tebygol o fod o'r farn bod y broses gyfrif yn dryloyw yn 2017 o gymharu â'r digwyddiad pleidleisio blaenorol o bob math. Lleisiwyd pryderon yn etholiadau blaenorol cynghorau'r Alban ynghylch natur proses gyfrif gan ddefnyddio STV a pha mor dryloyw a chllir yw'r broses i'r ymgeiswyr, o ystyried cymhlethdodau ychwanegol y system. Mae ein harolwg yn 2017 yn dangos cynnydd o dri phwynt canrannol ers 2012 mewn perthynas â thryloywder cyffredinol, sy'n awgrymu, er bod llawer i'w wneud eto, efallai bod y gwelliannau ers 2012 wedi cael rhyw fath o effaith. Yn wir, ymgeiswyr yn etholiadau cynghorau'r Alban oedd fwyaf tebygol o gytuno bod staff etholiad wedi egluro beth oedd yn digwydd ar gamau gwahanol o'r broses gyfrif.

3.39 Ar gyfer etholiad Cyffredinol Senedd y DU, ni welir llawer o wahaniaeth rhwng yr ymgeiswyr profiadol a'r rhai sy'n ymgeiswyr am y tro cyntaf, gyda 87% a 89% yn y drefn honno yn cytuno bod y broses gyfrif yn dryloyw. Mae mwy o wahaniaeth rhwng y sawl a gafodd eu hethol (94%) a'r sawl na chawsant eu hethol (87%), sy'n awgrymu bod cysylltiad rhwng boddhad a llwyddiant etholiadol.



## 4 Uniondeb etholiadol

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y broses bleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel ond nodwn gryn amrywiad rhwng ymgeiswyr etholiad Cyffredinol Senedd y DU (74%) ac ymgeiswyr cynghorau'r Alban (88%).
- Yr ymatebwyr i arolwg Cynulliad Gogledd Iwerddon oedd leiaf tebygol o ddweud na ddigwyddodd unrhyw dwyll yn yr etholiad (19%) a'r ymatebwyr i etholiadau cynghorau'r Alban oedd fwyaf tebygol (40%).
- O gymharu ag etholiad Cyffredinol blaenorol Senedd y DU, cafwyd gostyngiad o bum pwynt canrannol (o 31% i 26%) yn y sawl a ddywedodd bod twyll wedi digwydd yn yr etholiad.

4.1 Mae gan y Comisiwn Etholiadol rôl bwysig yn atal a chanfod twyll etholiadol. Rydym hefyd yn gwneud gwaith ymchwil gyda'r cyhoedd, ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn ymchwilio i'r canfyddiad o ddiogelwch.<sup>21</sup>

### Pleidleiso yn gyffredinol

4.2 Holwyd yr ymgeisywr pa mor ddiogel yw'r broses bleidleiso yn eu barn nhw. Ymatebwyr i arolwg etholiad cynghorau'r Alban oedd fwyaf tebygol o gytuno bod y broses bleidleisio yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd (88%). Mae hwn yn gynnydd o bum pwynt canrannol ers 2012. Ymatebwyr i arolwg etholiad Cyffredinol Senedd y DU oedd leiaf tebygol o gytuno bod y broses bleidleisio yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd (74%) ac mae hyn wedi gostwng ychydig, ddau bwynt canrannol, ers 2015.<sup>22</sup>


4.3 Y newid mwyaf nodedig ers y digwyddiad pleidleisio blaenorol yw ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon, lle y gostyngodd y nifer sy'n cytuno bod y broses bleidleisio yn ddiogel ddeg pwynt canrannol rhwng 2016 a 2017. Gall fod cysylltiad rhwng hyn ag adroddiadau yn y cyfryngau a chwynion gan rai ymgeiswyr ynghylch y cynnydd yn nifer y pleidleisiau drwy ddirprwy a fwriwyd yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2017.

4.4 Ymddengys fod cysylltiad rhwng hyder yn y system a llwyddiant etholiadol. Yn arolwg etholiad Cyffredinol Senedd y DU, os oedd ymatebydd wedi'i ethol, roedd yn fwy tebygol o gytuno bod y broses bleidleisio yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd: roedd 86% o'r rhai a gafodd eu hethol o'r farn honno, o gymharu â 73% o'r rhai na chawsant eu hethol.

<sup>21</sup> Ceir dadansoddiad o farn y cyhoedd ar y pwnc hwn yn [Pleidleisio yn 2017](#), tudalen 21 ymlaen.

<sup>22</sup> Nid oedd yr arolwg yn cynnwys diffiniad o dwyll etholiadol ar gyfer ymatebwyr yn yr arolwg hwn, ond ceir rhagor o wybodaeth am waith y Comisiwn ar [dwyll etholiadol ar ein gwefan](#).

4.5 Roedd ymatebwyr ag anabledd neu broblem iechyd yn llai tebygol na'r rhai heb anabledd neu broblem iechyd o feddwl bod y broses pleidleisio yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd: 66% a 75% yn y drefn honno ar gyfer arolwg etholiad Cyffredinol Senedd y DU; 78% a 87% ar gyfer etholiadau cynghorau'r Alban.



## Twyll yn eich ardal

4.6 Canfu ein hastudiaethau blaenorol ar ganfyddiadau o dwyll etholiadol y gall nifer fach o straeon yn y cyfryngau ddylanwadu ar gwestiwn ynghylch twyll 'yn gyffredinol'.<sup>23</sup> Felly, rydym hefyd yn gofyn faint o ymatebwyr oedd o'r farn bod twyll wedi digwydd yn eu hardal nhw yn benodol. Ceir patrwm tebyg rhwng y tri digwyddiad pleidleisio yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.


4.7 Yn gyson â'r ymatebion ar bleidleisio a nodwyd uchod, mae ymatebwyr Cynulliad Gogledd Iwerddon o leiaf yn debygol o ddweud nad oedd unrhyw dwyll yn eu hardal ac mae'r gyfran sy'n dweud nad oedd unrhyw dwyll wedi gostwng 20 o bwyntiau canrannol ers digwyddiad pleidleisio 2016. Eto, mae'n debygol bod y newid hwn o ganlyniad i'r cynnydd mewn ffocws ar honiadau ynghylch pleidleisio drwy ddirprwy yn 2017.

4.8 O gymharu â'r digwyddiadau pleidleisio blaenorol, mae'r ffigur ar gyfer etholiad Cyffredinol Senedd y DU wedi gostwng pum pwynt canrannol a gwelwyd gwelliant bach yn yr ymateb i arolwg etholiadau cynghorau'r Alban (tri phwynt canrannol). Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn yr Alban yn llawer mwy tebygol o ddweud na ddigwyddodd unrhyw dwyll yn eu hardal.

<sup>23</sup> Y Comisiwn Etholiadol, [Llyfrgell adroddiadau ymchwil, Electoral Fraud](#).



4.9 Yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol unwaith eto i'r arolwg gan y sawl a gafodd eu hethol, lle dywedodd 45% 'dim o gwbl', o gymharu â 24% o'r sawl na chawsant eu hethol.



4.10 Am y tro cyntaf yn ein hymchwil o ymgeiswyr, holodd holiadur etholiad Cyffredinol Senedd y DU yr ymatebwyr pam eu bod o'r farn bod twyll etholiadol neu gamddefnydd ar ddiwrnod yr etholiad.<sup>24</sup> Codwyd amrywiaeth o bryderon sydd wedi'u categorioedd a gellir crynhoi'r prif broblemau fel a ganlyn:

- gwendidau canfyddedig pleidleisio drwy'r post (32% wedi'u crybwyll);
- adroddiadau o bleidleisio ddwywaith, yn enwedig ymysg myfyrwyr (15%);
- dylanwad gormodol – yn enwedig mewn cymunedau De Asiaidd ac mewn cartrefi gofal - (15%);<sup>25</sup>
- y ffaith nad oes rhaid dangos prawf adnabod ffotograffig (8%).<sup>26</sup>

<sup>24</sup> Cafodd cwestiwn blwch testun rhydd penodol ar dwyll ei gynnwys yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2017 am y tro cyntaf ond ni chafodd ei gynnwys yn holiaduron 2017, nac mewn holiaduron blaenorol, ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon ac etholiadau cynghorau'r Alban.

<sup>25</sup> Ceir rhagor o wybodaeth am ein hymchwil yn 2015 yn [Elections, voting and electoral fraud](#) ac [Understanding electoral fraud vulnerability in Pakistani and Bangladeshi origin communities in England](#).

<sup>26</sup> Ar yr arolwg o ymgeiswyr yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, roedd 4% pellach o'r sylwadau o dan 'unrhyw faterion eraill' hefyd yn galw am brawf adnabod ffotograffig.

4.11 Mae'r Comisiwn yn cymryd yr holl bryderon hyn yn ddifrifol iawn, ac mae'n ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â nhw. Yn ddiweddar, gwnaethom nifer o argymhellion i Lywodraeth y DU ar sut i leihau'r risg y bydd pobl yn pleidleisio fwy nag unwaith.<sup>27</sup> Gwnaethom nodi ein hargymhelliad ar gyfer cyflwyno gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr ddangos dogfen adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr, gan adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd yng Ngogledd Iwerddon. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i dreialu'r gofyniad i bleidleiswyr ddangos dogfen adnabod mewn nifer o etholiadau lleol ym mis Mai 2018, a bydd y Comisiwn yn cyhoeddi gwerthusiad llawn, annibynnol o'r treialon hyn erbyn haf 2018.<sup>28</sup>

4.12 Mae ein gwaith a'n hargymhellion ar atal a chanfod twyll etholiadol [i'w weld ar ein gwefan](#).

---

<sup>27</sup> Y Comisiwn Etholiadol [Cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol y DU 2017](#) (Gorffennaf 2017).

<sup>28</sup> Ceir rhagor o wybodaeth yn [Electoral Commission's response to Sir Eric Pickles' review and recommendations on electoral fraud](#).

## 5 Casgliadau

5.1 Dangosodd y canfyddiadau o'n harolygon o ymgeiswyr yn 2017 lefelau uchel o foddhad â'r broses o weinyddu'r digwyddiadau pleidleisio a'r broses ar gyfer dod yn ymgeisydd, ond hefyd, amlygodd feysydd penodol lle mae angen gweithredu.

5.2 I ddechrau, dywedodd ychydig dros un rhan o bump o'r ymatebwyr i arolwg etholiad Cyffredinol Senedd y DU nad oedd yn hawdd codi'r ernes o £500 sy'n angenrheidiol i sefyll, ac roedd yr ymgeiswyr annibynnol hyd yn oed yn llai tebygol o gytuno (roedd tua un rhan o dair yn anghytuno). Mae ernesau yn rhwystr ariannol rhag sefyll mewn etholiad ac mae'r Comisiwn eisoes wedi argymhell y dylid dileu'r gofyniad i dalu ernes mewn unrhyw ddiwyddiad pleidleisio.

5.3 Lleisiodd nifer o'r ymatebwyr i'n harolygon bryderon ynghylch bygylu ymgeiswyr yn ystod yr ymgyrch. Mae gan y Deyrnas Unedig draddodiad cryf o etholiadau rhydd, sy'n rhan hanfodol o ddemocratiaeth iach. Cred y Comisiwn Etholiadol ei bod yn bwysig y dylai pobl allu sefyll etholiad ac ymgyrchu heb fod ofn cael eu sarhau neu eu bygylu. Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar y mater hwn.

5.4 Tynnodd ein hadroddiad yn 2017 ar agweddau cyhoeddus tuag at etholiadau a phleidleisio – Pleidleisio yn 2017 – sylw at y ffaith bod y mwyafrif o'r cyhoedd o'r farn bod pleidleisio ar y cyfan yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd ond bod pryderon yn bodoli o hyd ynghylch gwendidau yn y system. Dyma'r achos hefyd ymysg ymgeiswyr, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr (74% yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac 88% yn etholiadau cynghorau'r Alban) yn dweud eu bod o'r farn bod y broses pleidleisio'n ddiogel ond lleiafrif sylweddol o'r farn bod rhywfaint o dwyll wedi digwydd. Mae'r Comisiwn wedi argymhell nifer o fesurau er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymgeiswyr a'r cyhoedd fel pleidleisio ddwywaith a chambersonadu.

5.5 Mae canlyniadau'r arolwg ar gyfer etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn awgrymu cynnydd mewn pryderon gyda 19% o'r ymatebwyr yn dweud nad oeddent o'r farn bod twyll wedi digwydd yn etholiad mis Mawrth 2017. Hon oedd y gyfran isaf o'r tri arolwg ac mae'n ostyngiad o 10 pwynt canrannol ers digwyddiad pleidleisio 2016. Mae'n debyg bod hyn yn gysylltiedig â'r honiadau ynghylch pleidleisio drwy ddirprwy yn nigwyddiad pleidleisio 2017.

5.6 Yn olaf, dengys ein canlyniadau, er gwaethaf rhai newidiadau cadarnhaol, yn enwedig o ran rhyw, bod proffil demograffig ymgeiswyr yn dal i wyro oddi wrth fenywod a phobl ifanc. Mae pobl ag anabledd hefyd yn dal i fod wedi'u tangynrychioli. Cred y Comisiwn fod cael ystod amrywiol a chynrychioliadol o ymgeiswyr yn bwysig er lles ein democratiaeth ac rydym am sicrhau nad oes unrhyw rwystrau afresymol i'r sawl sydd am sefyll etholiad.

# Atodiad A: Cefndir a methodoleg

Cynhaliwyd yr arolygon er mwyn deall mwy am safbwyntiau a phrofiadau ymgeiswyr a safodd yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, etholiadau cynghorau'r Alban ac etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2017.

Cynhaliwyd y tri arolwg yn fewnol a dosbarthwyd holiaduron drwy'r post yn fuan ar ôl y diwrnod pleidleisio perthnasol. Dosbarthwyd yr holiaduron drwy'r post gan ddefnyddio'r cyfeiriadau a oedd ar gael o'r Datganiadau o'r Bobl a Enwebwyd, a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol perthnasol a Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon. Dosbarthwyd yr holiaduron ar gyfer cynghorau'r Alban ac etholiad Cyffredinol Senedd y DU hefyd drwy e-bost gan ddefnyddio'r cyfeiriadau a ddarparwyd gan Idox a Democracy Club yn y drefn honno.

Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau caeëdig a blychau testun rhydd, gan roi data ansoddol i ni a hefyd gan roi'r cyfle i'r ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am faterion nas codwyd yn y cwestiynau, neu i ymhelaethu ar atebion a roddwyd. Mae holiaduron wedi'u marcio ar gael yn Atodiad B.

Cysylltwyd â sampl o 11 o ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiadau cynghorau'r Alban ac yn etholiad Cyffredinol Senedd y DU i'w cyfweld. Drwy hyn, roedd yn bosibl i ni gael gwybodaeth fanylach am pam roedd ymgeiswyr wedi ateb fel y gwnaethant, a'n galluogi i archwilio materion eraill nas cwmpaswyd yn yr holiadur.

Er bod 15-22% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn ymgeisydd ac yn asiant, ar gyfer y ddwy don o etholiadau cynghorau'r Alban, roedd yr ymchwil hefyd yn arolygu'r rhai oedd yn gweithredu fel asiantiaid etholiadol yn unig. Caiff yr ymatebion hyn gan asiantiaid yn unig eu hidlo allan ar gyfer yr adroddiad hwn.

## Tybiaethau

Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad hwn at gyfran o ymgeiswyr – h.y. 'y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr', oni nodir fel arall, yn cyfeirio at yr ymgeiswyr a ddychwelodd ein harolwg, ac ni ddylid ystyried ei fod yn cynrychioli safbwyntiau pob ymgeisydd.

Roedd llawer o gwestiynau ar yr arolwg hwn yn holi p'un a oedd ymgeiswyr yn cytuno â datganiadau penodol; oni amlinellir fel arall, mae'r gyfran y nodwyd ei bod yn 'cytuno' â rhywbeth yn cynnwys y rhai a oedd yn cytuno a'r rhai a oedd yn tueddu i gytuno, ac mae'r gyfran y nodwyd ei bod yn 'anghytuno' yn cynnwys y rhai a oedd yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno. Yn yr un modd, pan nodir bod ymatebwyr yn 'fodlon' ar rywbeth, mae hyn fel arfer yn cynnwys y rhai sy'n 'fodlon iawn' ac yn 'eithaf bodlon' ac ati.

Ni fydd y canrannau a roddir ar gyfer rhai cwestiynau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu, neu mewn rhai achosion y ffaith bod sawl ateb yn bosibl, sydd wedi'i amlinellu lle y bo'n berthnasol.

Nodir bod data yn amhwysol.